Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Canllaw 5 Pwynt

i Sesiynau Hudol Meddwl yn Greadigol

1 Mynnwch wybod nod y sesiwn

Gall eich sesiwn chi ddigwydd gydag un person yn unig neu gant o bobl, yr un yw'r rheolau. Beth sy'n bwysig yw bod pawb sy'n cymryd rhan yn glir am y pwnc – sef meddwl am syniad busnes gwych!

2 Anogwch syniadau gwyllt!

Ysgrifennwch bob syniad i lawr. Peidiwch byth â dweud 'dwi ddim yn hoffi'r un yna' neu 'fasai hynny byth yn gweithio' yn ystod sesiwn meddwl yn greadigol. Po fwyaf o syniadau sydd gennych chi, mwyaf tebygol ydy hi y dewch chi ar draws un sy'n fendigedig.

3 Mwynhewch!

Mae pobl yn fwy creadigol pan maen nhw'n ymlacio. Chwaraewch gerddoriaeth yn y cefndir neu cymerwch seibiant yn y canol a chwaraewch gêm. Gwrandewch a chwerthinwch gyda'ch gilydd, dyna'r ffordd orau o adeiladu ar syniadau'ch gilydd.

4 Gosodwch derfyn amser

Gadewch hen ddigon o amser, ond gosodwch derfyn arno, neu gosodwch darged am nifer y syniadau rydych chi eisiau eu creu. Mae hyn yn helpu pawb i ganolbwyntio ac yn atal meddyliau rhag crwydro.

5 Gwnewch benderfyniad i gloi

Mae'r amser yn dod pan mae'n rhaid i chi benderfynu pa syniadau i'w cymryd yn eu blaen. Gorffennwch y sesiwn gyda syniad clir o ba syniadau rydych chi'n eu hoffi a beth mae angen i bawb ei wneud nesaf.



www.YCriwMentrus.SyniadauMawrCymru.com

Syniadau Mawr Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government